# Dylai’r Brifysgol a’r UM sefyll yn gadarn o blaid Hawliau Atgenhedlu yn Gyffredinol

Pasiwyd gan: Y Senedd

Pasiwyd ar: 06/12/2021

Yn darfod ar: **06/12/2024**

**Statws: Cyflawn**

**Swyddog sy'n gyfrifol: Swyddog Llesiant**

## Crynodeb

Hoffwn gyflwyno’r syniad yn hytrach na’r Brifysgol / yr UM yn sefyll yn gadarn gyda phrotestiadau a myfyrwyr Pwylaidd yn unig, ond y dylent, yn lle, gydsefyll dros gefnogi Hawliau Atgenhedlu Menywod yn Gyffredinol.

## Manylion

Mae’r polisi presennol o ‘Sefyll yn Gadarn mewn Solidariaeth gyda Phrotestiadau yng Ngwlad Pwyl’ yn annog yr UM i sefyll yn weithredol wrth ochr y protestiadau yn erbyn y gwaharddiad ar erthyliadau yng Ngwlad Pwyl. Fodd bynnag, ledled y byd mae gwledydd eraill wedi tynnu hawliau atgenhedlu menywod yn ôl, nid yn unig yng Ngwlad Pwyl.

Yn gyffredinol, mae’r deddfau ynghylch erthyliadau yn wahanol ac yn amrywio ym mhob gwlad. Ar hyn o bryd, mae yna 26 gwlad lle mae pob math o erthyliad yn anghyfreithlon, ni waeth a ydy’r beichiogrwydd yn ganlyniad i drais neu losgach. Mewn 37 gwlad eraill, mae erthyliadau yn anghyfreithlon oni bai ei fod yn achub bywyd y fam.

Mae cyrff hawliau dynol fel y Cenhedloedd Unedig (CU) wedi condemnio’n drachefn y deddfau erthyliadau cyfyngol hynny gan eu bod yn groes i normau hawliau dynol. Tra bod y rhan fwyaf o fenywod yn byw mewn gwledydd lle y gallent arfer eu hawl i erthyliad, mae 41% o fenywod byd-eang yn byw o dan ddeddfau cyfyngol lle nad ydynt yn gallu arfer eu hawl dynol i erthyliad.

Mae’r cyfyngiadau ar gael erthyliadau diogel a chyfreithlon yn effeithio ar 700 miliwn o fenywod o oed atgenhedlu. Yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd (SIB), mae 23,000 o fenywod yn marw o achos erthyliadau anniogel bob blwyddyn a degau o filoedd mwy yn profi cymhlethdodau iechyd sylweddol. Nid yw cyfyngiadau cyfreithlon ar erthyliadau yn golygu llai o erthyliadau, yn lle hynny, mae’n gorfodi menywod i beryglu eu bywydau a’u hiechyd gan chwilio am ddarparwyr erthyliadau anniogel.

Hoffwn gyflwyno’r syniad yn hytrach na’r Brifysgol / yr UM yn sefyll yn gadarn gyda phrotestiadau a myfyrwyr Pwylaidd yn unig, ond y dylent, yn lle, gydsefyll dros gefnogi Hawliau Atgenhedlu Menywod yn Gyffredinol.

Hoffai Hannah, y Swyddog Llesiant, fod y Brifysgol / yr UM yn dangos eu cefnogaeth i’r holl

fyfyrwyr rhyngwladol lle mae erthyliadau yn anghyfreithlon neu wedi'u gwahardd i raddau yn eu gwledydd eu hunain. Rwy am sicrhau bod gan yr holl fyfyrwyr hyn fynediad at y cyngor a'r gefnogaeth gywir ynghylch erthyliadau nad yw efallai ar gael iddynt gartref, gan gynnwys y broses erthyliad, yr ôl-ofal, a'r cyngor llesiant cefnogol. Pe bai myfyriwr yn y Brifysgol yn gorfod mynd trwy erthyliad ar eu pen eu hun, rwy am weld tosturi a dealltwriaeth gan y Brifysgol o ran absenoldebau, amgylchiadau arbennig ac estyniadau gwaith. Mae'r penderfyniad i derfynu beichiogrwydd, a'r broses o derfynu beichiogrwydd yn ddigwyddiad bywyd sy'n gallu peri llawer o straen, dim ond menywod sydd wedi bod trwy'r profiad sy'n gallu deall.
Nid yw menywod yn dioddef gan ymatebion corfforol yn unig, ond maent hefyd yn profi ystod eang o ymatebion emosiynol a seicolegol. Gwyr hefyd bod terfynu/colli beichiogrwydd yn arwain at ymyriad â chylch hormon menywod. Mae'r Gymdeithas Beichiogrwydd Americanaidd yn dweud mai'r teimladau negyddol mwyaf cyffredin ar ôl erthyliad yw euogrwydd, dicter, cywilydd, edifeirwch neu ofid, colled mewn hunan-werth neu hunan-hyder, teimlo'n unig neu'n ynysig, problemau cysgu/diffyg cwsg yn llwyr, hunllefau, problemau gyda pherthnasoedd neu feddyliau o hunanladdiad. Yn ogystal â'r rhain, mae llawer o fenywod hefyd yn profi galar, straen neu deimlad o golled ac efallai nad ydynt yn gallu ymdopi.
Ni fydd NEB yn edrych i lawr ar erthyliadau na NEB yn gwahaniaethu yn erbyn erthyliadau a bydd y gweithdrefnau priodol ar waith pe bai myfyriwr yn wynebu unrhyw anawsterau fel canlyniad i'w penderfyniad i gael erthyliad. Dylai fod gan fenywod yr hawl i ddewis yr hyn mae'n ei wneud gyda'i chorff ei hun a'i babi ei hun, nid awdurdod gwrywaidd uwch.

Cyflwynwyd gan: Hannah Lunnon

## Rhestr Weithredu

| Camau a gymerwyd | Enw a Rôl | Dyddiad |
|---|---|---|
| Dyma safiad presennol yr UM. | Helen (Llesiant 2023-24) | Tachwedd 2023 |
| Yn ystod ein hwythnos SHAG flynyddol, fe wnaethom hysbysu myfyrwyr am leoliad y clinig iechyd rhywiol agosaf, gan sicrhau bod ganddynt wybodaeth am leoliad gwasanaethau erthylu ac opsiynau gofal iechyd hanfodol eraill. | Helen (Llesiant 2023-24) | Tachwedd 2023 |